# PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## YSTYRIED YR YMATEBION I 'RYDDID A CHYFRIFOLDEB MEWN LLYWODRAETH LEOL'

## DIBEN

1. Diben y papur hwn yw hysbysu’r Pwyllgor am yr ymatebion i Ddatganiad Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 'Ryddid a Chyfrifoldeb mewn Llywodraeth Leol' a gyhoeddwyd ar 1 Mawrth 2002, a gofyn am safbwyntiau'r Pwyllgor ar yr ymatebion hyn. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 17 Mai 2002 a derbyniwyd 50 o ymatebion. 18 oddi wrth gynghorau sir a bwrdeistref, 3 oddi wrth awdurdodau tân, 7 oddi wrth gynghorau cymuned a 22 oddi wrth sefydliadau eraill gan gynnwys CLlLC.

2. Rhaid gwneud penderfyniadau ar yr eitemau polisi y mae angen deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer cyn toriad yr haf er mwyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru fedru cymryd y camau priodol i sicrhau bod y darpariaethau penodol yn cael eu cynnwys yn y Mesur Llywodraeth Leol nesaf y gobeithir ei drefnu ar gyfer hydref eleni.

3. Bydd yr eitemau hynny nad oes angen deddfwriaeth sylfaenol ar eu cyfer yn dilyn y drefn arferol.

## ARGYMHELLION

4. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad a chyflwyno unrhyw safbwyntiau ar yr ymatebion.

## MATERION I'W HYSTYRIED

### Y Weledigaeth ar gyfer Llywodraeth Leol

5. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi gweledigaeth gynhwysfawr ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru a derbyniodd groeso cynnes gan y rhai a ymatebodd fel dogfen gadarnhaol a oedd wedi cael ei 'gwneud yng Nghymru'. Fe’i disgrifiwyd fel trobwynt yn y berthynas rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, gan ddiffinio perthynas aeddfed.

6. Serch hynny, teimlai’r rhai o'r rheiny a ymatebodd y gallai'r ddogfen fod wedi bod yn fwy radical a phenodol ynghylch y dyfodol. Roedd nifer bychan iawn o'r ymatebwyr hefyd yn teimlo nad oedd y ddogfen yn mynd i'r afael yn effeithiol â'r berthynas hanfodol rhwng llywodraeth leol a'r sector busnes.

**Arweiniad Cymunedol gan Llywodraeth Leol**

7. Croesawyd yr adran hon gan yr ymatebwyr ond yr oedd consensws cryf y dylai fod yn ddyletswydd statudol ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a chyrff cyhoeddus eraill megis y GIG gydweithio gyda'r broses gynllunio cymunedol.

8. Awgrymwyd gan rai o'r ymatebwyr y dylid llunio cynllun strategol y Cynulliad ar sail y 22 cynllun cymunedol, serch hynny, teimlai rhai ymatebwyr y dylai fod yn broses ddwy ffordd.

9. Nodwyd y dylai awdurdodau lleol gysylltu'n effeithiol gyda'r sector gwirfoddol ac awgrymwyd y dylai compactau'r sector gwirfoddol gael eu monitro gan y Cyngor Partneriaeth a llywodraeth leol, yn ogystal â Chyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

**Cydweithio ar gyfer Gwell Gwasanaethau mewn Llywodraeth Leol**

10. At ei gilydd cymeradwywyd cyflwyno Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella fel cam dewr. Cafwyd peth trafod ar yr angen i arolygwyr deimlo eu bod yn rhan o’r Rhaglen a sicrhau bod cynghorau’n manteisio i’r eithaf ar unrhyw her o’r tu allan ond bod yr arolygiadau'n cael eu seilio ar dystiolaeth a'u bod yn deg. Pwysleisiwyd y dylid ceisio rhyw fath o gydbwysedd rhwng cefnogi awdurdodau lleol a sicrhau gwerth am arian a chynnig gwasanaethau o safon.

11. Nodwyd yn nifer o'r ymatebion na ddylid cyfyngu'r cymariaethau i Gymru'n unig. Cafwyd ychydig o gefnogaeth i’r syniad bod awdurdodau tân yng Nghymru yn dod yn rhan o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, a nodwyd efallai y byddai adolygiadau ar y cyd rhwng y gwasanaethau tân a'r heddlu yng Nghymru yn anodd iawn os ydynt yn rhan o ddulliau gwahanol o ymdrin â Gwerth Gorau. Yr oedd cefnogaeth i'r egwyddor o gydweithio ond roedd pryderon mewn perthynas â llinellau atebolrwydd.

12. Yr oedd cefnogaeth gryf i fuddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer aelodau a swyddogion yr awdurdodau lleol ac yr oedd awgrymiadau'n cynnwys rhwydwaith dysgu sector cyhoeddus i Gymru a sefydliad arweiniyddiaeth i Gymru. Yr oedd cefnogaeth hefyd i’r syniad o gyflwyno cynlluniau i ddathlu rhagoriaeth a lledaenu’r arferion gorau.

**Lleihau Biwrocratiaeth i Lywodraeth Leol**

13. Derbyniodd yr holl gynigion yn yr adran hon ar ad-drefnu cynlluniau, partneriaethau a gweithdrefnau cydsynio gefnogaeth eang. Yr oedd rhai ymatebion yn nodi y gallai'r cynigion fod yn fwy uchelgeisiol ac gallent nodi targedau penodol ar gyfer lleihau biwrocratiaeth.

14. Derbyniodd yr egwyddor o Gytundebau Polisi gefnogaeth eang unwaith eto. Derbyniwyd rhai safbwyntiau y dylai'r rhai nesaf ganolbwyntio mwy ar faterion lleol gyda mwy o ran yn cael ei rhoi i'r sector gwirfoddol.

**Llywodraeth Leol Ddemocrataidd ac atebol**

15. Derbyniodd y cynigion ar gyfer cynllun diswyddo ar gyfer cynghorwyr sydd wedi gwasanaethu am amser hir dipyn o gefnogaeth, ond, roedd peth pryder y gallai ei wneud yn gynllun un-tro olygu bod gormod o brofiad yn diflannu o lywodraeth leol ar adeg hanfodol.

16. Yr oedd y mwyafrif yn cefnogi'r pwyllgorau archwilio ond fe ofynnwyd am eglurhad o'u rôl yn y strwythurau gwleidyddol newydd.

**Treth y Cyngor**

17. Derbyniodd y cynnig i gynnal ailwerthusiad o Dreth y Cyngor a chyflwyno cylch ailwerthuso statudol gefnogaeth eang. Yr oedd teimladau cymysg ynghylch sut i fynd ati i ailwerthuso. Yr oedd rhai ymatebion yn dadlau y byddai hyn yn gyfle i fynd i'r afael â’r amgyffred bod y dreth yn rhoi mwy o faich ar bobl ar incwm isel tra bod eraill yn teimlo'i bod yn llwyddiannus ar ei ffurf bresennol a dylid cyfyngu'r ailwerthuso i ddiweddaru'r bandiau.

**Ardrethi Busnes**

18.. Yr oedd nifer o'r ymatebion, nid dim ond y rhai oddi wrth yr awdurdodau lleol, yn dadlau bod dychwelyd yr ardrethi busnes yn llawn i'r awdurdodau lleol eu rheoli yn hanfodol er mwyn sicrhau atebolrwydd lleol, trafodaethau llawn a phriodol gyda'r gymuned fusnes ac i fynd i'r afael â gerio. Yr oedd nifer o'r ymatebion hyn yn cydnabod y byddai angen tawelu meddyliau’r gymuned fusnes pe bai hyn yn digwydd ac awgrymwyd na ddylai’r cynnydd yn yr ardrethi busnes fod yn fwy na’r cynnydd yn Nhreth y Cyngor.

19. Serch hynny, cydnabyddwyd nad oedd hon yn opsiwn hawdd ac y byddai angen mynd i'r afael â nifer o faterion megis sicrhau bod adnoddau’n gyfartal yn y setliad refeniw a'r mater o drosglwyddo risg sylweddol i awdurdodau lleol.

20. Roedd rhai o’r ymatebwyr yn gweld yr opsiwn o Ardal Gwella Busnes (BIDs) fel rhywbeth

ychwanegol i'r opsiwn o roi’r ardrethi nôl i’r awdurdodau lleol a theimlai eraill y byddai'n gam yn nes tuag at y nod o’u rhoi yn ôl yn llwyr yn y pendraw. Datganwyd peth pryder y gallai'r opsiwn fod yn feichus i’w weinyddu. Mae gan yr opsiwn BIDs gefnogaeth lawn y gymuned fusnes sy'n gwrthwynebu'n gryf yr opsiwn oroi’r ardrethi ‘nôl yn llwyr i’r awdurdodau lleol. .

21. Yr oedd cefnogaeth oddi wrth bob categori ar gyfer cynllun cymorth rhyddhad rhag ardrethi i fusnesau bach a chafwyd llawer o gefnogaeth mewn egwyddor i’r cynllun cadw ardrethi busnes ond yr oedd nifer o'r ymatebwyr yn dymuno aros nes bod y cynigion i gyd wedi'u cwblhau'n llawn cyn iddynt fynegi’u safbwynt terfynol.

**Arian Refeniw**

22. Yr oedd cefnogaeth frwd i’r egwyddor o beidio â chlustnodi cyllid at ddibenion penodol a chroesawyd yr adolygiad o grantiau penodol. Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr nad oedd angen adolygiad sylweddol o'r fformiwla gyllido, er yr oedd rhai yn anghytuno. Yr oedd ymateb cymysg iawn hefyd i'r cynigion i gyfyngu ar yr amrywiadau o amgylch SSA cyfartalog ond yr oedd parodrwydd cyffredinol i archwilio'r opsiynau.

23. Cafwyd nifer bach o ymatebion yn nodi y dylai'r awdurdodau tân gael eu gwneud yn awdurdodau praeseptio, ond serch hynny, safbwynt y mwyafrif oedd y dylai'r Cynulliad gael per yn y ddeddfwriaeth sydd ar ddod i'w alluogi i benderfynu a ddylai hyn ddigwydd yng Nghymru a phryd.

24. Yr oedd cefnogaeth unfrydol ar gyfer trosglwyddo cyllid cyfalaf y gwasanaeth tân i’r Cynulliad Cenedlaethol a pharodrwydd i archwilio ymhellach yr hyn a olygir wrth drosglwyddo polisi tân i'r Cynulliad. Yr oedd hefyd gefnogaeth ar gyfer ad-drefnu a symleiddio cyllid yr heddlu yng Nghymru.

**Cyllid Cyfalaf**

25. Croesawyd cyflwyno'r system ddarbodus a theimlai’r y rhan fwyaf o ymatebwyr y dylai'r Cynulliad ddarparu cefnogaeth o dan y system hon ar ffurf grant cyfalaf. Er y croesawyd y rhyddid a ddaw gyda'r system ddarbodus yr oedd pryder nad oedd yn ddigon ar ei ben ei hun i fynd i'r afael â'r tan-gyllido difrifol ar asedau cyfalaf awdurdodau lleol.

26. Croesawyd yr adolygiad arfaethedig o gynllun Bellwin ac awgrymwyd y dylai'r awdurdodau tân gael mynediad uniongyrchol i'r cynllun.

**Cyfrifo a Chyfrifyddu ar gyfer Gwasanaethau Lleol**

27. Cefnogwyd y syniad o gyflwyno lwfans gwaith atgyweirio (LGA) mewn egwyddor ond dymunodd y rhan fwyaf o ymatebwyr aros hyd nes cyhoeddir manylion terfynol y cynllun cyn

rhoi eu barn derfynol. Yr oedd rhai ymatebion yn nodi y dylai'r awdurdodau lleol gael benthyg ar sail y LGA o dan y system ddarbodus. Cafwyd ymateb cymysg iawn i'r cynnig o ddod â'r derbyniadau cyfalaf ynghyd, gan amrywio o wrthod y cynigion yn llwyr i groesawu'r ffaith bod adnoddau'n cael eu hail-ddosbarthu i'r ardaloedd hynny sydd eu hangen mwyaf. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnal dadl gyhoeddus ar ddyfodol tai yng Nghymru.

28. Yr oedd croeso i'r gydnabyddiaeth o'r rôl bwysig y gall cynghorau cymuned ei chwarae wrth gyflawni Gwell Cymru ond mynegwyd ychydig o siom nad oedd unrhyw weithredu cadarnhaol wedi ei gynnig ar y mater o dreuliau arbennig. Awgrymwyd y dylai cynghorau cymuned gael mynediad uniongyrchol i'r Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig Cenedlaethol. Mynegodd y Cynghorau Cymuned bryder hefyd oherwydd nad oedd y prif gynghorau'n trafod yn effeithiol â nhw.

29. Mynegwyd rhai safbwyntiau cryf bod y cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU yn rhoi dyletswydd ar y Prif Swyddog Cyllid i roi adroddiad ar gryfder cyfrifiadau'r gyllideb a digonolrwydd yr arian wrth gefn, yn ogystal â rhoi dyletswydd ar y cyngor llawn i fonitro'r sefyllfa ariannol yn rheolaidd, yn ddiangen. Y teimlad oedd bod hyn yn digwydd eisoes a'i fod yn cael ei drafod yn ddigonol mewn canllawiau proffesiynol.

30. Yr oedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod y cynnig i newid yr amserlen fel bod yr awdurdodau lleol yn gorfod llunio datganiadau ymhen tri mis, yn unol â'r amserlen ar gyfer y Cynllun Gwella, yn her ond yr oedd modd ei gyflawni. Serch hynny, dylid nodi y byddai yna oblygiadau o ran adnoddau. Teimlai ymatebwyr eraill fod y cynnig yn ddiangen ac y byddai'n rhoi gormod o bwysau ar awdurdodau lleol.

**CYDYMFFURFIO**

31. Cyhoeddwyd y papur ar y Datganiad Polisi o dan Adran 40 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Llywodraeth Leol 1999, Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r ddeddfwriaeth ariannol sy''n berthnasol i lywodraeth leol gan ei fod yn hwyluso gweithredu swyddogaethau'r Cynulliad mewn perthynas â llywodraeth leol. Dirprwywyd y swyddogaethau hyn i'r Gweinidog. Nid oes unrhyw faterion sy'n ymwneud â rheoleidd-dra na phriodoldeb ac mae Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad yn hapus.

**Swyddog Cyswllt**: Adam Peat

Cyfarwyddwr, Grp Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant

Est. 5565